Rhif yn Nhabl y Llywodraeth	Rhif y parargarff yn y Polisi Gorfodi	Sylwadau	Ymateb
1.3	2.3 a Rhestr termau	Newidiwyd 'manylu' i 'pennu' ym mharagraff 2.3 ond dim yn y rhestr termau.	Wedi gwneud
1.4	3.8	A fyddai'n well dweud "Nid oes angen caniatad….." ar ol y frawddeg "At hynny, gyda chaniatad y Tribiwnlys….". Dyw'r frawddeg newydd ddim i weld yn llifo'n iawn os cyfeirir at y ffaith nad oes angen caniatad cyn son am yr apelio ei hun.	Wedi gwneud
1.5	4.12	Nodwn yr ychwanegiad newydd. Gan mai cyfeirio at 93(8) rydych yn ei wneud yma, a ddylai'r geiriau 'ystyried gwneud' gael eu cynnwys ar ol 'Comisiynydd am'?	Wedi gwneud
1.6	4.15, 4.16, 4.17, a 4.18	Diolch am eich eglurhad a'r ail ddrafftio. Mae'r esiampl yn eich ymateb yn ddefnyddiol iawn. Gan mai pwrpas y polisi gorfodi yw rhoi cyngor a gwybodaeth ar sut bydd y Comisiynydd yn arfer ei phwerau, oni fyddai'n ddefnyddiol cynnwys y fath esiampl yn y ddogfen? Mae parargaff 4.18 yn darparu mai'r Comisiynydd fydd yn penderfynu a yw am gynnal ymchwiliad statudol a'i peidio. Rydym yn darllen hyn fel mai'r Comisiynydd ei hun fydd yn gwneud y penderfyniad yma, ac nid aelod o'i staff. Allwch chi gadarnhau? Mae hyn yn arwain at gwestiwn pwysig arall –ym mhob man lle cyfeierir at y Comisiynydd a ydych yn golygu y Comisiynydd ei hun neu ydy'r cyferiad fod i gynnwys staff ei swyddfa? Tybiwn bod rhai cyfeiriadau lle golygir y Comisiynydd ei hun, ac eraill lle bwriedir cynnwys ei staff hefyd. Mae peryg o gyfyngu ar sefyllfaodd lle gall y staff weithredu os na wneir hyn yn glir drwy wneud	Dim yn dymuno cynnwys enghraifft. Mae hwn yn sylw newydd. Mewn ymateb, nodir mai corfforaeth undyn yw'r sefydliad ac felly mae'r Comisiynydd am fod yn gyfrifol am wneud yr holl benderfyniadau a nodwyd yn y polisi.

		darpariaeth benodol e.e. fe allai corff ddadlau mai'r Comisiynydd ei hun ddylai arfer y swyddogaeth ac nid aelod o'i staff.	
1.9	6.17	Diolch am eich sylwadau. Er mwyn gwneud y sefyllfa yn eglurach, beth am newid y ddwy frawddeg gyntaf i'r canlynol; "Bydd y Comisiynydd yn ceisio rhoi rhybudd i berson perthnasol cyn mynd i mewn. Serch hynny, nid oes rhaid i'r Comisiynydd o reidrwydd wneud apwyntiad. Pan fo hi'n rhesymol, fe all y Comisiynydd fynd i mewn heb roi rhybudd."	Mae'r Comisiynydd yn dymuno cadw'r paragraff fel ag y mae.
2.5	3.6	Rydych wedi dileu 'dwysau yr ymateb' yma ond dim yn 10.2? Beth a olygir gan 'dwysau yr ymateb' yn 10.2?	Wedi dileu'r gair
2.6	4.1	Diolch am yr eglurhad. Fel uchod, gan mai pwrpas y polisi gorfodi yw y roi cyngor a gwybodaeth ar sut bydd y Comisiynydd yn arfer ei phwerau, efallai y byddai'n ddefnyddiol cynnwys y fath esiampl yn y ddogfen?	Dim yn dymuno cynnwys enghraifft.
2.9	6.23	Mae gwall bach yn y paragraff yma – mae angen bwlch rhwng 'roi' ac 'ynghyd' yn y 3ydd llinell.	Cywiriad wedi ei wneud
2.10	7.21	Mae gwall bach yn y paragraff yma – gellid dileu ';a' ar ddiwedd y 4ydd pwynt bwled.	Cywiriad wedi ei wneud
2.14	10.5	Nodwn y newid i ddiwedd parargaff 10.5. Serch hynny, nid yw cydymffurfio â chynllun gweithredu yn gam gorfodi. Paratoi cynllun gweithredu sy'n gam gorfodi. Nid yw'r paragraff yn cyfeirio at sut bydd y Comisiyndd yn gorfodi methiant i gydymffurfio a chynllun gweithredu (adran 89). Oes angen is-bennawd newydd yma ee ; "Methiant i gydymffurfio a chynllun gweithredu"?	Addaswyd ond nid oes is adran pellach. Mae'r paragraff yn gywir.
2.15	10.6	Mae eich ymateb yn dweud bod	Wedi gwneud.

		newid wedi ei wneud, ond ni allwn ei weld.	
2.18	4.10	Wedi ail ystyried, a ydydch yn cytuno mai dim ond 4.4 a 4.7 sy'n adlewyrchu gofynion y Mesur am beth yw cwyn ddilys?	A 4.6 hefyd. (12 mis)
3.5	3.9	Mae eich ymateb yn dweud bod newid wedi ei wneud, ond ni allwn ei weld.	Wedi gwneud.
3.7	4.1	Ni allwn weld ymateb i'r sylw am y geiriau 'er mwyn atal y methiant hwnnw rhag….'.	Dim newid oedd yr ymateb. Mae datrys cwyn er mwyn atal methiant rhag digwydd eto ac ati yn rhan greiddiol o'r rheswm pam fod y Comisiynydd yn delio gyda chwynion. Mae'n deg dweud bod hynny'n ffactor yn yr adran am gwynion.
3.10	5.3	Yn sgil ychwanegu'r pwynt bwled olaf mae angen dileu 'neu' o'r 3ydd pwynt bwled a'r atalnod llawn o'r 4ydd pwynt bwled.	Wedi gwneud
3.17	Rhestr termau – diwrnod gosod	Mae eich ymateb yn dweud bod newid wedi ei wneud, ond ni allwn weld newid i'r diffiniad o 'diwrnod gosod'.	Wedi gwneud
3.19	Gweithdrefn gwyno	Y bwriad oedd cynnwys y cyfeiriad at argaeledd y weithdrefn gwyno ym mhennod 14, nid yn y rhestr termau.	Wedi gwneud sylw pellach
Pwynt newydd	14.4	Oes camsillafiad yng nghyfeiriad ebost y Comisiynydd?	Wedi cywiro.